CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod rhithwir o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd trwy cynhadledd Zoom, Nos Fawrth, 15 MEDI 2020.

1 **PRESENNOL:**
Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Mr Myfyr Davies, Mr Gareth Evans, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, a Mr J Alun Foulkes (Clerc). Hefyd, Cynghorwyr Sirol Mr Bryan Owen.

2 **YMDDIHEURIADAU:**
Mrs Arianwen Owen, Mr Selwyn Williams.
Cynghorwyr Sirol Mr Peter Rogers.

3 **CROESO**

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 **DATGAN DIDDORDEB**

4.1 Datganodd Cynghorydd Myfyr Davies Datganaid Personol oedd yn Rhagfarnol i Gais Cynllunio Carreg Ceiliog Bach (eitem 11.2) gan mai fe yw Ymgeisydd y Cais Cynllunio. Gadewodd y cyfarfod tra roedd aelodau yn trafod y cais ac ni chymerodd rhan mewn unrhye drafodaeth/penderfyniad.

5 **CYWIRO & CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD.**

5.1 Cyfarfod Misol 14/07/2020 – cynnig (MD), eilio (AH) ei bod yn rhai cywir.

5.2 Cyfarfod Blynyddol 14/07/2020 – cynnig (MD), eilio (AH) ei bod yn rhai cywir.

6 **Safle Parcio Stâd Morawelon, Malltraeth** – dywedodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi derbyn ymateb anfoddhaol oddiwrth y Cyngor Sir ac fe benderfynodd trefnu cyfarfod gyda Cynghorwyr Sirol Bryan Owen a Peter Rogers gyda'r Clerc, hefyd, yn bresennol er mwyn trafod y sefyllfa yn bellach.
Argymhellodd i'r aelodau y dylid trefnu cyfarfod iddo ef a'r Clerc gyda Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, Deiliaid Portffolio Adrannol, Uwch Swyddogion Adrannol a chynrychiolwyr ein Cyngor Sir er mwyn datrys y mater. **Cytunwyd yr aelodau yn unfrydol a gofyn i'r Clerc trefnu cyfarfod ac adrodd yn nôl i'r cyfarfod nesaf.**

Arwyddo……

7 **Safle Parcio Stâd Pensiynwyr, Hermon** – adroddiad y bydd ychwanegu y safle yma yn unol a argymhellion cofnod 6. **CYTUNWYD.**

8 **Hysbysfwrdd** - cadarnhawyd mai y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am yr Hysbysfyrddau ac mai dim ond dogfennau y Cyngor disgwylir eu osod ynddynt.

9 **Dogfen Arolwg Trefniadau Etholiadol ar gyfer Ynys Mon (Cynigion Drafft).**
Roedd y Clerc wedi ymateb i'r ddogfen erbyn 14 Medi 2020 gyda argymelliad y Cyngor ail-enwi y Ward yn Ward 'Santes Ddwynwen' ac fod hyn wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir.

10 **ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.**
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi trefnu cyfarfod gyda Cynghorwyr Sirol Bryan Owen a Peter Rogers gyda'r Clerc, hefyd, yn bresennol er mwyn trafod y sefyllfa yn bellach. Argymhellodd i'r aelodau y dylid trefnu cyfarfod iddo ef a'r Clerc gyda Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, Deiliaid Portffolio Adrannol, Uwch Swyddogion Adrannol, chynrychiolwyr ein Cyngor Sir yn ogystal a Christine Rogers a Rhys Evans o Bwyllgor y Ganolfan er mwyn datrys y mater. **Cytunwyd yr aelodau yn unfrydol a gofyn i'r Clerc trefnu cyfarfod ac adrodd yn nôl i'r cyfarfod nesaf.**

11 **Adroddiad y Cynghorwyr Sirol.**
Cafwyd adroddiad byr ar lafar oddiwrth Cynghorydd Sirol, Bryan Owen.

11.1 Plant Ysgol Gynradd wedi profi yn bositif gyda COVID19 yn Langefni, Borth a Llanfechell.

11.2 Ebyst wedi ei dderbyn gan Alan Smith yn gofyn ystyried ail agor Y Ganolfan ac fod yno diddordeb lleol am brynnu y safle Ysgol Bodorgan.

11.3 Newyddion trist fod Cwmni Hitachi wedi tynnu'n ol o'r cytundeb ynghylch a Wylfa Newydd a bydd hyn yn cael effaith enfawr ar ddiwydiant a economi'r ynys a'i thrigolion yn y dyfodol. Bydd hefyd yn golled enfawr o ran cyfleoedd am swyddi a hyfforddiant mewn ymgais i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn aros ar yr Ynys.

Arwyddo……..

12 Adroddiad Coeden wedi disgyn ger Pumping Station Hermon (A4080) Llangadwaladr i Fodorgan.

Nodwyd yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y stormydd diwedd Mis Awst ac nad oedd 4 golau stryd ger Stad Glascoed heb weithio ers hynny. **Cytunwyd yr aelodau fod y Clerc yn anfon llythyr i'r Adran Goleuadau Stryd ac adrodd yn nôl i'r cyfarfod nesaf.**

13 Ceisiadau Rhoddion;

13.1 Roedd y Clerc wedi derbyn cais am rhodd oddiwrth Ty Gobaith.
Cytunwyd yr aelodau nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i wneud fwy o rhoddion eleni ond cadw y cais dan sylw at y flwyddyn ariannol nesaf.

13.2 Nodwyd llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn oddiwrth Capel Bethel am rhodd y Cyngor.

14 MATERION CYLLID;
Cytunwyd aelodau gyda rhestr llawn a derbyniadau y Cyngor & Cysoniad Datganiad y Banc hyd at 31 Awst 2020;

14.1	Wales Air Ambulance – Rhodd	£250.00
14.2	Hosbis Dewi Sant – Rhodd	£250.00
14.3	Capel Bethel – Rhodd Blynyddol	£500.00
14.4	Pwyllgor Mynwent Eglwys Llangadwaldr – Rhodd Blynyddol	£500.00
14.5	Zurich Insurance – Yswiriant Blynyddol	£402.58
14.6	Arwyddion Humphreys Signs Ltd – Arwyddion Difibriliwr	£129.60
	DERBYNIADAU	
14.7	Claddu – Diweddar Elsie Williams	£525.00
14.8	Carreg Fedd – Diweddar Janet Roberts	£185.00
14.9	Cyngor Sir Ynys Mon – Ail Rhandaliad Priseb 2020/21	£3,833.33

Arwyddo.....

14.10 Cysoni Mantolen Banc:

CYSONI BANC	2020 / 2021
Gweddill 1af Gorffennaf	£ 20,876.27
DERBYNIADAU	£ 4,543.33
Llai TALIADAU	-£ 2,032.18
GWEDDILL 31 AWST 2020.	£ 23,387.42
BALANS CYFRIFON BANC	**2020 / 2021**
Cyfrif Cyfredol	£ 24,517.02
Llai Siec Heb Cyflwyno 100276, 277, 278 & 281	- £ 1,129.60
CYFANSWM	£ 23,387.42

15 CYFRIF CADW & BANCIO AR LEIN.

15.1 Dywedodd y Clerc ei fod yn parhau gyda ymdrechion o agor cyfrif cadw gyda'r Banc ers Mis Medi 2019 er mwyn trosglwyddo £14k iddo. Gobeithio y bydd ganddo adroddiad gwell erbyn y cyfarfod nesaf.

15.2 Oherwydd hyn, dywedodd y Clerc nad oedd ganddo lawer o ymddiried cychwyn y broses o wneud taliadau ar lein. Eto, gobeithio y bydd ganddo adroddiad gwell erbyn y cyfarfod nesaf.

16 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

16.1 Cais llawn ar gyfer codi ystafell ardd yn The Brackens, Malltraeth, Bodorgan.
Rhif Cais: HHP/2020/193 – **DIM SYLWADAU.**

16.2 Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol i storio peirianau a'r dir yn: Carreg Ceiliog Bach, Bethel, Bodorgan.
Rhif Cais: DAG/2020/17 - **DIM SYLWADAU.**

17 PENDERFYNIADAU ADRAN – CEISIADAU CYNLLUNIO

17.1 Cais Llawn – Newid Defnydd Cwt Ci yn Stiwdio Cerddoriaeth & Ystafell Astudio – 35 High Street, Malltraeth, Bodorgan – FPL/2020/53 – **CANIATÂD.**

18 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - MIS TACHWEDD (17/11/2020).

18.1 Clowyd y cyfarfod am 7:50yh.